COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30PM AR NOS LUN 12 MAI 2014

Yn bresennol:
Cynghorwyr Mrs Philippa Davies, Andrew Howell, Terry Griffiths, Keith Evans, Doug Davies, Wyn Evans, Miss Beth Davies, Peter Davies, Mrs Eileen Curry, Mrs Carolyn Reed-Rees (Clerc dros dro) a Tom Cowcher (Cadeirydd)

Personol:
Nododd Cyng Tom Cowcher bod Nia, y Clerc, i ffwrdd o hyd oherwydd salwch a bod ein Clerc blaenorol, Mary Davies, bellach mewn hosbis yn Llanelli, a phenderfynwyd anfon llythyr i'w theulu (bydd y Clerc yn trefnu hyn).
Yn ogystal, estynnodd Cyng Cowcher groeso yn ôl i'n cyfieithydd, Llinos, a'i llongyfarch hi a'i theulu ar enedigaeth ei mab yn ddiweddar, Gruffydd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cymorth dros y flwyddyn ddiwethaf a diolchodd Cyng Keith Evans i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am eu gwaith yn ystod eu cyfnod yn y Swydd.

1. Ethol Cadeirydd:
   Cynigiodd Cyng Mrs Eileen Curry, o ystyried y ffaith (a) bod y Clerc yn mynd i fod yn absennol am sawl mis oherwydd salwch a (b) y materion parhaus y mae'r Cyngor Cymuned yn delio gyda nhw ar hyn o bryd, y dylai Cyng Tom Cowcher barhau i gyflawni rôl y Cadeirydd am flwyddyn bellach er mwyn cadw rhywfaint o ddilyniant. Cynigiodd Cyng Wyn Evans y dylai Cyng Terry Griffiths ymgymryd â rôl y Cadeirydd gan mai ef fu'r Is-gadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac y dylid dilyn y system arferol. Cynhaliwyd pleidlais, a'r canlyniad oedd 4-3 (1 wedi ymatal) o blaid Cyng Tom Cowcher yn parhau i gyflawni rôl y Cadeirydd dros y flwyddyn nesaf.

2. Llofnodwyd y Datganiad Derbyn Swydd, gan gynnwys y Cod Ymddygiad, gan y Cadeirydd.

3. Ethol Is-gadeirydd:
   Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylai'r Is-gadeirydd presennol (Cyng Terry Griffiths) barhau i gyflawni'r Swydd, a chafwyd cytundeb unfrydol ar gyfer y cynnig hwn.

4. Ethol Pwyllgor Cynllunio a Cheisiadau Cynllunio:
   Cynigiwyd y canlynol a chafwyd cytundeb unfrydol ar eu cyfer:
   Cyng Tom Cowcher – Capel Dewi; Cyng Mrs Philippa Davies – Pont-siân; Cyng Wyn Evans – Llandysul, Cyng Andrew Howell - Llandysul a Chyng Eileen Curry – Tregroes.

5. Ethol Pwyllgor Cyllid:
   Cynigiwyd y canlynol a chafwyd cytundeb unfrydol y dylid ailethol y pwyllgor cyllid: Cynghorwyr Douglas Davies, Wyn Evans ac Andrew Howell.

6. Archwilydd Mewnol:
   Cynigiwyd y dylai Ron Foulkes barhau i gyflawni rôl ein Harchwilydd Mewnol, a chafwyd cytundeb unfrydol ar gyfer y cynnig hwn.

7. Rheolaeth Fewnol:
   Cynigiwyd y dylai Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees barhau i gyflawni rôl ein Gwiriwr Mewnol, a chafwyd cytundeb unfrydol ar gyfer y cynnig hwn.

8. Asesiad Risg:
   Cynigiwyd y dylid anfon ein Hasesiad Risg presennol ymlaen at Ron Foulkes er mwyn iddo ef ei gymeradwyo, ac y dylid ei anfon ymlaen at yr holl aelodau er gwybodaeth.

9. Derbyn Datganiad o'r Cyfrifon:
   Atgoffwyd yr aelodau gan Gyng Keith Evans o'r ffaith bod y Cyfrifon wedi cael eu hadolygu a'u cadarnhau yn ystod y cyfarfod blaenorol, a bod popeth yn iawn.

10. Seddau Gwag:
    Er y cafwyd un cais, nododd Cyng Keith Evans bod yn rhaid hysbysebu seddau gwag er mwyn cydymffurfio gyda'r rheoliadau gofynnol. Gofynnir i'r Clerc drefnu bod posteri yn cael eu creu er mwyn eu dosbarthu yn ystod y cyfarfod nesaf i'r aelodau eu harddangos, a bydd y dulliau hysbysebu yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod nesaf. Felly, bydd yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis nesaf. Yn ogystal, bydd y Clerc yn holi CSC am y rheoliadau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda nhw. (Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn ystod y cyfarfod fel arsylwr ac fe'i hysbyswyd y byddai ei chais yn cael ei gadw tan yr adeg briodol.) Awgrymodd Cyng Mrs Eileen Curry y byddai modd cyfeirio unrhyw geisiadau i'r man cywir er mwyn iddynt gael gwybod am ddyletswyddau Cynghorwr Cymuned a'r disgwyliadau ohonynt, ac y gallai hyn fod o gymorth iddynt.

    (Cyrhaeddodd Cyng Peter Evans ar yr adeg hon.)

11. Ymddiheuriadau:
    Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Aled Jones.

12. Datgelu Buddiannau:
    Cyng Keith Evans – Capel Carmel; Cyng Eileen Curry – Capel Carmel; Cyng Beth Davies – Sioe Llandysul, Treialon Cŵn Defaid Pren-gwyn (a elwir yn 'Sioe Pren-gwyn' nawr) a Charnifal Llandysul.

13. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 14-4-14:
    Nododd y Clerc dros dro y dylid dileu'r geiriau 'Nodiadau ynghylch', gwnaethpwyd hyn ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. Yna, cynigiwyd bod y Cofnodion yn gofnod cywir o'r Cyfarfod a derbyniwyd hynny.

14. Materion yn Codi:
    4. Mae anfoneb bellach wedi cyrraedd wrth V Davies
    5. Ras yr Iaith – Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylid rhoi rhodd o £50.00, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Wyn Evans. Ffair Wledig – Ni chafwyd cyfrifon a chytunwyd talu'r rhodd y cytunwyd arno yn flaenorol, sef y swm o £5,000 ar ddiwedd y digwyddiad (i'w gynnal ym mis Mehefin)
    6. Bin Graean ym Maesymeillion – Cadarnhawyd nad oes angen disodli'r bin graean hwn.
    8. Radio Beca – mae ULlC wedi cynghori y gallai bod yn Aelod achosi cymhlethdodau, ac y byddai'n well rhoi rhodd os oes modd. Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylem ysgrifennu at Radio Beca i ofyn a oes modd iddynt dderbyn rhodd gennym (gan nad ydym yn aelodau) ac os felly, bydd modd ystyried hyn.
    9. Dogfen Ymgynghori - ar ôl edrych dros y ddogfen, adroddodd Cyng Andrew Howells nad oes unrhyw beth yn y ddogfen sy'n berthnasol i ni.
    10. Absenoldeb o Gyfarfodydd – cadarnhaodd Cyng Tom Cowcher bod y Clerc wedi siarad gyda Chyng Beth Davies am y mater hwn.
    15. Ffair Wledig – Cafwyd y cyfrifon.

15. BDO – Datganiad Blynyddol – 31-3-14:
    Nododd y Clerc dros dro nad oedd y datganiad wedi cael ei gyflwyno gyda'r papurau eraill ac y bydd y Clerc yn rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau bod y Datganiad yn cael ei lenwi, a'i fod yn barod i'w lofnodi yn ystod y Cyfarfod ym mis Mehefin, yn barod i'w Ddychwelyd erbyn diwedd Mehefin.

16. Rhoddion:
    Sioe Llandysul - Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylid rhoi £800.00, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Philippa Davies ac fe'i dderbyniwyd.
    Treialon Cŵn Defaid Pren-gwyn ('Sioe Pren-gwyn') Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid rhoi £500.00, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Andrew Howell ac fe'i dderbyniwyd.
    Carnifal Llandysul Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid rhoi £500.00, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Philippa Davies ac fe'i dderbyniwyd.

Capel Carmel: Cais am £7,000.00 i wneud gwaith adnewyddu er mwyn sicrhau ei bod yn haws i'r henoed/anabl gael mynediad i'r Capel. Penderfynwyd y dylem ysgrifennu at y Capel gan gynnig ein cymorth, ond gan ofyn a ydynt wedi gwneud cais i CSC am arian, ac y dylai fod ganddyn nhw ragor o arian ar gael ar gyfer ceisiadau o'r fath. Bydd yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar yr Agenda a'i thrafod unwaith eto fis nesaf. Er bod cryn dipyn o'r gwaith a fydd yn cael ei gyflawni yn waith gwirfoddol, awgrymwyd y byddai modd cyflwyno agwedd 'crefftau penodol' y gwaith i CSC.
Canolfan Ddŵr Llandysul - Cafwyd y cyfrifon ond roeddent wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'r aelodau fwrw golwg drostynt a'u trafod. Felly, bydd yn cael ei gynnwys ar yr Agenda ar gyfer mis nesaf. (Mae'r Clerc wedi anfon y Cyfrifon ymlaen i'r aelodau er mwyn iddynt fwrw golwg drostynt.)

(Ymddiheurodd Cyng Peter Evans a gadawodd y Cyfarfod ar yr adeg hon)

17. Gohebiaeth:
Dosbarthwyd rhestr o'r negeseuon e-bost a anfonwyd ymlaen at yr holl aelodau i bawb. Nododd Cyng Mrs Eileen Curry y byddai'r cwrs hyfforddiant ynghylch Ymgynghori gyda'r Gymuned/Ymgysylltu Cymunedol o fudd, gan ein bod yn ei chael hi'n anodd cynnwys aelodau'r cyhoedd. Cynigiodd Cyng Andrew Howell gael rhagor o wybodaeth am hyn, gan adrodd yn ôl am yr hyfforddiant hwn.
CSC - Casgliadau ysbwriel y cartref yn ystod wythnosau Gwyliau Banc - nodwyd; Hysbysiad bod y praesept ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi cael ei dalu; Hysbysiad bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CSC wedi cael ei ohirio - nodwyd; dosbarthwyd Hysbysiadau Etholiadau Senedd Ewrop i'r aelodau er mwyn eu harddangos mewn hysbysfyrddau.
ULlC – Llythyr yn cadarnhau'r Ffioedd Aelodaeth i'w talu. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylem barhau i fod yn aelodau ac y dylem dalu'r ffioedd.
SLCC - Hysbysiad am hyfforddiant - Nodwyd y bydd y Clerc i ffwrdd o hyd oherwydd salwch, felly na fydd modd iddi fynychu hwn.
Llywodraeth Cymru – Rhoddwyd y papur hwn i Gyng Eileen Curry a gynigiodd ddarllen y ddogfen ac adrodd yn ôl amdani fis nesaf. Caiff hon ei chynnwys ar yr Agenda ar gyfer Cyfarfod mis Mehefin.
Bwcabus – Dosbarthwyd taflen i'r aelodau ei darllen.
Chwarae i Gymru – Rhoddwyd taflen i Gyng Philippa Davies.
Swalec – Nodwyd bod yr eitem hon wedi cael ei rhestru dan 'Gohebiaeth' mewn camgymeriad. (Gweler 'Anfonebau' isod)
Anfonebau:
Cyngor Sir Ceredigion £330.00 am fagiau gwastraff; Ron Foulkes £25.00 am archwilio'r cyfrifon; Mrs V Davies £72.00 am lanhau'r lloches bysiau yng Nghapel Dewi (am flwyddyn - fel y nodwyd gan Gyng Doug Davies); Swalec £624.62 am y cyflenwad heb ei fesur ar gyfer y Goleuadau Nadolig; Cyng Andrew Howell £97.60 sy'n ymwneud â threuliau – teithio i Gyfarfodydd ULlC.

18. Gwefan:
Dim byd i'w adrodd y mis hwn. (Bydd yn cael ei gadw ar yr Agenda.)

19. Awel Deg:
Nododd Cyng Keith Evans ei bod yn ymddangos bod rhai aelodau o staff wedi cael eu diswyddo a bod rhai wedi colli eu swyddi, ond ceir sibrydion niferus. Awgrymwyd y dylem anfon llythyr at Mr Parry Davies, y Cyfarwyddwr Strategol, er mwyn gofyn am yr hyn sy'n digwydd, a gofyn a fyddai'n barod i fynychu ein Cyfarfod i siarad gyda ni am y mater. Bydd y Clerc yn anfon llythyr.

20. Paentio Meinciau:
Cafwyd dyfynbris er mwyn gwneud y gwaith o drwsio a phaentio 46 mainc. Penderfynwyd y dylai'r Clerc droi at ein cofnodion er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym ni 46 mainc ac i ddarganfod pryd y gwnaethpwyd unrhyw waith i drwsio'r meinciau yn flaenorol (a'r gost). Yn ogystal, mae angen i ni ofyn am o leiaf ddau ddyfynbris arall ar gyfer y gwaith hwn, a dylai'r

aelodau edych i weld faint o feinciau sydd yn eu Wardiau, a'r gwaith y mae angen ei wneud arnynt.

21. Cynnal a Chadw/Plannu:
Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ofyn i Deiniol Evans/The Greenhouse/M Williams wneud y gwaith o dorri prysgwydd eleni gan barhau'r contract, ac y bydd y Clerc yn gwneud nodyn yn y dyddiadur i gael dyfynbrisiau newydd am gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer y flwyddyn nesaf/y flwyddyn ddilynol. (Bydd y Clerc yn cadarnhau a fydd y pris yn aros yr un fath ar gyfer eleni.)
Penderfynwyd y dylai'r Clerc ofyn i Richard Bramley o Farmyard Nurseries i gyflawni'r gwaith plannu yn y dysglau plannu eleni gan barhau'r contract, ac y bydd y Clerc yn gwneud nodyn yn y dyddiadur i gael dyfynbrisiau newydd am gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer y flwyddyn nesaf/y flwyddyn ddilynol. (Nododd Cyng Andrew Howell bod Mr Bramley wedi nodi y bydd y pris yn aros yr un fath ar gyfer eleni.) Unwaith eto, bydd y Clerc yn gofyn am anfoneb gan Farmyard Nurseries am y gwaith a wnaethpwyd eisoes.
(Awgrymwyd ar yr adeg hon y gallai calendr megis 'Google' fod o ddefnydd i'r Clerc er mwyn cofnodi digwyddiadau o'r fath sy'n codi dro ar ôl tro yn y dyfodol.)
Coed ym Maesymeillion – dywedodd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees wrth yr aelodau bod trigolion Maesymeillion yn bryderus iawn am ddiogelwch y coed mawr o flaen y cartrefi yn y pentref, ar ôl i o leiaf saith ohonynt gwympo yn ystod y stormydd a gafwyd yn ddiweddar. Mae gorchmynion cadw ar y coed hyn. Mae'r trigolion yn trefnu archwiliad gan feddyg coed ond byddent yn dymuno cael cefnogaeth y Cyngor Cymuned yn y dyfodol pan fyddant yn gwneud cais i CSC bod y coed yn cael eu torri (pan fo hynny'n berthnasol).

22. Presenoldeb mewn Cyfarfodydd:
Deliwyd gyda'r mater hwn dan Faterion yn Codi (14 uchod)

23. Cynllunio (Gadawodd Cyng Peter Davies ar yr adeg hon)
Hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14-4-14- Nodwyd
A140282 Cabinetau Band Eang Openreach – dim gwrthwynebiadau
A140267 Amrywio amodau – Heol Llyn y Fran – dim gwrthwynebiadau
A140343 Amrywio amodau – ysgol newydd arfaethedig – dim gwrthwynebiadau
Hysbysiadau Cymeradwyo – nodwyd y rhain i gyd, fel a ganlyn: A140179 Mrs Ebbsworth disodli ffens; A140040 Mr Halton adeiladu annedd; A140085 Mr & Mrs Rees adeiladu sied; A140123 Mr & Mrs Rees newid amod; A130593 Mr Jones trawsnewid hen gartws yn annedd.